CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
Dyddiad y cyfarfod:	**26 Medi 2022**
Teitl:	**Diweddariad blynyddol Neuadd Goffa Ceinewydd 2020-2022**
Pwrpas yr adroddiad:	**Derbyn y diweddariad blynyddol**
Er:	**Gwybodaeth**

1. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL

1.1 Fel y gŵyr yr Aelodau efallai, cafodd y Neuadd ei rhoi ar brydles gan y Cyngor, sef Ymddiriedolwr yr Elusen, i 'Neuadd Goffa Ceinewydd', sy'n Sefydliad Corfforedig Elusennol cofrestredig, a hynny am 99 mlynedd oddi ar 10 Chwefror 2020.

1.2 O dan gymal 26.6 o'r brydles mae'n rhaid i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol roi crynodeb blynyddol i'r ymddiriedolwr ar y 10fed o Chwefror bob blwyddyn yn nodi'r defnydd a wnaed o'r eiddo yn ystod y 12 mis blaenorol. Pwrpas y rhwymedigaeth hon yw bod yr ymddiriedolwr yn gallu gweld bod y Neuadd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau cymunedol a dibenion eraill o fewn amcanion ymddiriedolaeth y Cyngor, sef ei '*defnyddio fel neuadd bentref i drigolion Ceinewydd a'r gymdogaeth heb wahaniaethu yn ôl barn wleidyddol, grefyddol neu farn arall, gan gynnwys ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd, darlithoedd a dosbarthiadau ac ar gyfer mathau eraill o hamdden a difyrrwch, gyda'r nod o wella amodau byw'r trigolion dywededig'.*

1.3 Ni roddwyd diweddariad ym mis Chwefror 2021 ond ers hynny bu i'r swyddogion godi hyn gyda'r Sefydliad Corfforedig Elusennol ac mae diweddariad wedi'i roi ar gyfer 2020-2022. Cyflwynir y diweddariad hwn yn Atodiad 1, er gwybodaeth (daeth i law ar 14/01/2022).

Argymhelliad:	**Nodi'r diweddariad oddi wrth y tenant ar gyfer y cyfnod 10 Chwefror 2020 – 9 Chwefror 2022.**
Y rheswm am y penderfyniad:	**I gydnabod bod y tenant yn cydymffurfio â chymal 26.6 o'r brydles dyddiedig 10 Chwefror 2020.**
Atodiadau:	**Atodiad 1 – Diweddariad gan Neuadd Goffa Ceinewydd**
Pennaeth y Gwasanaeth:	**Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu**
Swyddog Adrodd:	**Louise Harries – Cyfreithiwr**
Dyddiad:	**31/08/2022**

ATODIAD 1 – DIWEDDARIAD GAN NEUADD GOFFA CEINEWYDD 14/01/2022

Neuadd Goffa Ceinewydd
Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion Chwefror 2020 – 2021 + Chwefror 2021 - 2022

Crynodeb o'r defnydd a wnaed o'r Neuadd Goffa 2020 - 2022

Ffurfiwyd yr elusen ym mis Medi 2018 pan gafodd gweithgarwch, asedau a rhwymedigaethau elusen flaenorol y Neuadd Goffa – rhif 503653 - eu trosglwyddo ac y rhoddwyd prydles newydd gan Gyngor Sir Ceredigion i bwyllgor newydd, rhif elusen 1179995, i ad-drefnu a darparu gwasanaethau i'r trigolion lleol.

Roedd angen gwaith adnewyddu mawr er mwyn i'r neuadd - a adeiladwyd ym 1923 - gyd-fynd â'r gofynion modern gan gynnwys **ffenestri dwbl, drysau, toiledau newydd gan gynnwys at ddefnydd a mynediad anabl. Gosodwyd llawr a nenfydau newydd wedi'u hinswleiddio, cegin newydd, gwifrau trydan, system wresogi, goleuadau, to newydd gyda phaneli solar, ac ailaddurno'n llwyr y tu mewn a thu fas.** Fe wnaeth y pwyllgor newydd wneud cais a llwyddo i gael grant o £223253.00 yn 2019 er mwyn talu am y rhan fwyaf o'r adnewyddu. Drwy godi arian a derbyn rhoddion cafwyd £27424.00 pellach tuag at gost y gwaith adeiladu.

Roeddem yn cynnig adnodd cymunedol pwysig hyd nes i'r Neuadd gael ei chau i'w hadnewyddu yn llwyr ar ddeechrau mis Ionawr 2020. Dilynwyd hyn gan Gyfnod Clo cenedlaethol Covid-19 ym Mawrth 2020.

Yn y cyfamser parhaodd yr adeiladwyr i weithio a oedd yn golygu ymestyn cyfnod cau'r Neuadd a rhoi stop llwyr ar y ffynonellau incwm arferol.

Roedd y gwaith adnewyddu ar y Neuadd, **fel y dangosir uchod**, wedi dod i ben erbyn diwedd mis Chwefror 2021 ond roedd Cymru yn dal i fod mewn cyfnod clo ac nid oedd cyfle i ddefnyddio cyfleusterau'r Neuadd.

Yn ystod mis Mawrth 2021 gosodwyd arwyddion ychwanegol er mwyn i'r Neuadd fod yn ddiogel o ran Covid-19 ac i baratoi ar gyfer ailagor cyn gynted ag y byddai canllawiau'r Llywodraeth yn caniatáu.

O achos cyfnodau clo a chyfyngiadau pellach nid oedd modd defnyddio'r Neuadd yn llawn oherwydd y rheolau ymbellháu cymdeithasol, ond defnyddiwyd y Neuadd ar gyfer Pleidleisio ar Fai'r 6ed, 2021. Llwyddodd Llyfrgell Ceinewydd i sefydlu system glicio a chasglu yn y Neuadd ac ailgychwynwyd digwyddiadau a chyfarfodydd i grwpiau bach.

Cwblhawyd ramp mynediad newydd a rheiliau diogelwch ym mis Hydref yn tu cefn i'r Neuadd ynghyd â chyfleusterau parcio i bobl anabl.

Mae Llyfrgell Ceinewydd bellach yn gweithredu'n llwyr ac wedi'i lleoli yn barhaol i lawr staer yn y Neuadd. Mae'r hen lyfrgell yn Sgwâr Ucheldir bellach ar gau.

Hydref, Tachwedd, Rhagfyr 2021 roedd archebion yn parhau fel isod ond gyda llai o niferoedd oherwydd gofynion ymbellháu cymdeithasol.

Digwyddiadau wythnosol yn y Neuadd Goffa yn 2022

Dydd Llun,
Rhaglen Braenaru/ *Pathfinder* - gwasanaethau cymorth i'r teulu - 10-4pm lawr staer.
Yn ailddechrau yn fuan.
Cyngor Tref Ceinewydd, dydd Llun olaf y mis - lawr staer (gall y cyhoedd fynychu).
Yn ailddechrau yn fuan.

Y Lleng Brydeinig 6.30-7.30pm ystafell 2

Côr Cei, prif neuadd, yn ailddechrau yn fuan.

Dydd Llun,
Rhaglen Braenaru/ *Pathfinder* - gwasanaethau cymorth i'r teulu **yn ailddechrau yn fuan** ac ymwelydd iechyd - 10-3pm lawr staer.
Crefftau WI Cross Inn - 7-9pm yn wythnosol, prif neuadd.

Dydd Mercher
Clonc - sgwrsio Cymraeg - bob dydd Mercher 10- 2 prif neuadd
Arts4Wellbeing – crefftau , 2-4 prif neuadd
WI Seaside Sisters - cwrdd ar y trydydd dydd Iau bob mis 7-9pm. **Lan staer**

Dydd Iau,
Ioga, 9:45 am - prif neuadd.
Clwb Camera Ceinewydd yn cwrdd yn fisol ar nos Iau - yn ailddechrau yn fuan.

Dydd Gwener
Marchnad gymunedol Ceinewydd - 10.00-12.30 pm - yn ailddechrau cyn gynted ag y codir y cyfyngiadau.

Dydd Sadwrn

Ymarfer pêl-droed iau, 5:30pm, **yn ailddechrau yn fuan.**

Dydd Sadwrn a dydd Sul - ar gael ar gyfer partïon pen-blwydd, digwyddiadau arbennig, cyfarfodydd ac ati. Niferoedd wedi'u cyfyngu i 30 ar hyn o bryd (oddi ar Ionawr 2022)

Clwb Snwcer ar gael lawr staer, 9am-9pm